CYNGOR CYMUNED BRO
MACHNO

Nos Iau, 15 Mai 2025 – 7.30yh
Hwb, Penmachno

# cofnodion drafft

DRAFT

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 15 Mai 2025** am 7.30,  Hwb Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
3. Datganiad o Fuddiant
4. Diweddariad gan SP Energy am gynlluniau i'r dyfodol
5. Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
6. Adroddiad Elusen Cymorth Mewn Angen Plwyf Hanesyddol Penmachno
7. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
8. Llygru afon Machno
9. Gohebiaeth
10. Adolygu / mabwysiadu holl bolisïau, adroddiadau, yswiriant, mandad banc, debydau uniongyrchol y cyngor
11. Adolygu'r ffi mynediad i'r toiled cyhoeddus
12. Adroddiad Cyllidol
    a. Archwiliad 2024-25 – Cadarnhau penodiad archwilydd mewnol
    b. Cymeradwyo ffurflen archwilio flynyddol
13. Materion Cynllunio
14. Materion eraill
15. Adolygiad cyflog y clerc

**Presennol**:
Bethan Corrigan
Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

Dau gynrychiolydd o gwmni cyfleustodau SP Energy.

**Ymddiheuriadau**:
Dim

## Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
Agorwyd y cyfarfod gan Eryl Owain a wahoddodd enwebiadau ar gyfer swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol y byddai Eryl Owain yn cael ei ail-ethol yn gadeirydd a Dylan Davies, Is-gadeirydd.

## Datganiad o fuddiant
Nid oedd unrhyw ddatganiadau

## Diweddariad gan SP Energy am gynlluniau i'r dyfodol
Adroddodd y cwmni cyfleustodau a benodwyd gan SP Energy i gwblhau'r gwaith cebl drwy ganol Penmachno eu cynlluniau. Roedd yr amserlen waith, y cynllun rheoli traffig a'r cynllun ymgysylltu â'r cyhoedd i gyd yn ymddangos wedi'u hystyried yn dda iawn. Adroddwyd y bydd digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, diweddariadau cyfryngau cymdeithasol a dosbarthu llythyrau yn digwydd pan gytunir ar ddyddiadau mwy pendant. Nododd y cyngor ei optimistiaeth ynghylch y cwmni newydd a'u cynlluniau.

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **13 Mawrth 2025** fel rhai cywir, Owen Davis yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

## Elusen Plwyf Penmachno
Croesawodd y Cadeirydd adroddiad gan Elusen Plwyf Penmachno. Dywedodd Dylan Davies, Cynghorydd Cymunedol ac Ysgrifennydd yr Elusen, fod yr elusen wedi gallu rhoi sawl grant eleni.

## Materion yn codi:

**Toiled Cyhoeddus:** Adroddwyd bod y llawr newydd wedi cael ei osod.

**Llwybrau Cyhoeddus:** Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle gyda'r Cyngor Sir i nodi problemau gyda llwybrau cyhoeddus lleol.

**Diffibrilwyr:** Adroddwyd bod y clerc wedi derbyn cyllid grant o sawl mil o bunnoedd ar gyfer dau diffib, blychau a gosodiad. Roeddent i gael eu gosod yn fuan.

**SP Energy:** Adroddwyd nad oedd ateb wedi dod gan SP Energy ynglŷn â thalu'r clerc am y 75 awr o oramser di-dâl yr oedd wedi'i weithio.

**To Stabl**: Adroddwyd nad oedd ateb wedi dod gan y cyngor sir. Penderfynwyd cysylltu â'r cyngor sir eto.

**Archwilio Cymru:** Adroddwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn eto i'r llythyr cwyn.

## Llygredd afon Machno

Adroddwyd bod erthygl gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru yn gwneud amryw o honiadau am Dŵr Cymru yn gollwng carthion heb eu trin i afon Machno yng Nghwm Penmachno. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, i drefnu cyfarfod safle ac i roi gwybod i'r gymuned fod y cyngor cymuned yn ymchwilio i'r mater.

## Gohebiaeth

**Cartrefi Conwy**: Adroddwyd na fydd y gymdeithas dai yn ail-wynebu'r ardal barcio ar eu hystâd, gan ddatgan nad maes parcio ffurfiol yw'r tir, ond ardal prysg / diffaith.

**Rêfs yn y Goedwig:** Adroddwyd bod cwyn wedi'i dderbyn am rêfs rheolaidd yn digwydd yn y goedwig. Penderfynwyd adrodd y mater i Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Tŷ i'w Rentu:** Adroddwyd bod perchennog tŷ ym Mhenmachno wedi'i siomi nad yw'r cyngor sir eisiau rhentu'r tŷ i denant ar ran y perchennog. Penderfynwyd cyfeirio'r person at y grŵp tai lleol.

**Pont Llan:** Adroddwyd bod coed a changhennau wedi golchi i lawr yr afon ac wedi mynd yn sownd yn erbyn strwythur y bont. Penderfynwyd adrodd y mater i'r cyngor sir.

**Bont Newydd:** Adroddwyd bod craciau'n ymddangos ar ochr yr A5 o'r bont. Penderfynwyd adrodd y mater i'r cyngor sir.

**Bys a Bawd Pawb:** Adroddwyd bod y grŵp wedi gofyn am lythyr cefnogaeth brys a bod y clerc wedi ateb ar unwaith.

*Gadawodd Owen Davis y cyfarfod am eiliad.*

## Adolygu / mabwysiadu holl bolisïau, adroddiadau, yswiriant, mandad banc, debydau uniongyrchol y cyngor

Penderfynwyd bod popeth mewn trefn.

## Adolygu’r ffi mynediad i’r toiled cyhoeddus

Adroddwyd bod y cyngor wedi gwario miloedd o bunnoedd yn cadw'r toiled cyhoeddus ym Mhenmachno ar agor ac yn gwella'r cyfleuster. Penderfynwyd cynyddu'r ffi mynediad i 50c i leihau'r baich ar drethdalwyr lleol. Geraint Thomas yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

## Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

## Cadarnhau penodiad archwilydd mewnol

Penodwyd J. Llywelyn Hughes a'i Gwmni yn archwiliwr mewnol.

## Cymeradwyo ffurflen archwilio flynyddol

Adroddwyd bod y Clerc wedi gorffen y cyfrifon, bod archwilwyr mewnol wedi cwblhau eu gwiriadau, bod y ffurflen flynyddol wedi ei gweld a'i chymeradwyo gan y Cyngor ac roedd yr holl ddogfennau yn barod i'w hanfon at Archwilio Cymru.

## Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau newydd.

DRAFT

## Materion eraill

**Ffens yn y Parc, Penmachno**: Adroddwyd bod angen atgyweirio'r ffens ger yr afon. Dilwyn Roberts i gysylltu â'r cyngor sir.

**Cyfleusterau, Maes Chwarae Cwm Penmachno:** Penderfynwyd ymchwilio i weld a ellid gwella'r cyfleusterau yn y maes chwarae.

**Mynwent Arwelfa:** Penderfynwyd parhau â'r ymdrechion i ddod o hyd i gyllid ar gyfer atgyweiriadau i'r wal a'r reilins.

**Coed Nadolig:** Penderfynwyd gosod tiwb, a gedwir yn ei le gan goncrid ar gyfer coed Nadolig ar y gwyrdd.

**Lle Parcio / Mynediad i'r Brif Ffordd:** Adroddwyd bod lle parcio newydd wedi ei greu gyda mynediad i'r brif ffordd heb ganiatâd cynllunio. Penderfynwyd rhoi gwybod am y mater i'r Awdurdod Parc.

*Gadawodd y clerc y cyfarfod tra bod ei gyflog yn cael ei adolygu. Dychwelodd Owen Davis i'r cyfarfod.*

## Adolygiad cyflog y clerc

Penderfynwyd cynyddu oriau'r clerc i 24 y mis i adlewyrchu'n well yr amser sydd ei angen i wneud y gwaith.

**Cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y cyngor nos Iau 10 Gorffennaf 2025, 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Shiloh.

DRAFFT